# TAG UWCH – NEWYDD

**1020U60-1**

**CYMRAEG: AIL IAITH – U2 uned 6**

**DEFNYDDIO IAITH A'R STORI FER**

**(Papur Ysgrifenedig)**

**DYDD LLUN, 4 MEHEFIN 2018 – BORE**

**MONDAY, 4 JUNE 2018 – MORNING**

**2 awr a'ch amser estynedig**

**2 hours plus your additional time allowance**

© WJEC CBAC Ltd.
JD*(S18-1020U60-1)MLP 36pt

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

## ADDITIONAL MATERIALS

A WJEC pink 16-page answer booklet.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch BOB cwestiwn yn Adran A ac Adran B.

**Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.**
**Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.**

## INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

**Use black ink or black ball-point pen.**

**Answer ALL questions in Section A and Section B.**

**Write your answers in the separate answer booklet provided.**

**The marking will take into account the quality of written communication used in your answers.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.**

**Cofiwch mai papur synoptig yw hwn ac felly bydd yn profi eich dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau o'r pwnc.**

**NI chaniateir defnyddio copïau o'r straeon byrion na geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

## INFORMATION FOR CANDIDATES

**The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.**

**You are reminded that this paper is synoptic and so will test understanding of the connections between the different elements of the subject.**

**Copies of the short stories and dictionaries are NOT permitted.**

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

1(i) **Rydych wedi derbyn yr hysbyseb ar dudalen 8 a 9 gan reolwr y cwmni rydych chi'n gweithio iddo. Mae e wedi gofyn i chi drefnu digwyddiad yn y Ganolfan Hamdden newydd. Ysgrifennwch ebost at bawb yn gofyn a oes diddordeb ganddynt i ddod i'r digwyddiad. (Tua 150 o eiriau) [20]**

**Wrth ysgrifennu'r ebost at eich cydweithwyr dylech chi ddweud:**

- **ble mae'r ganolfan**
- **pryd mae'r digwyddiad**
- **pa weithgareddau rydych chi'n mynd i'w trefnu**

- **beth sydd i’w fwyta**
- **beth ydy pwrpas y digwyddiad**
- **y trefniadau ar gyfer y rhai sydd am fod yn rhan o’r digwyddiad**
- **eich syniadau chi ar gyfer beth i’w wneud ar ôl bwyta**
- **erbyn pryd mae’n rhaid ymateb i’r ebost.**

# CANOLFAN HAMDDEN GLASFRYN

Canolfan Newydd

BLE?

canol y dref

chwarter milltir o’r orsaf rheilffordd

CYFLEUSTERAU:

digon o le i barcio parcio am ddim ar ddydd Sul cyfleusterau i’r anabl

BETH SYDD YNO?

ystafelloedd ffitrwydd modern
campfa
pwll nofio
caffi
meithrinfa

**(ar gyfer plant o dan oed ysgol)**

**YN OGYSTAL:**

**gwersi nofio i bob oedran**
**gweithgareddau gwyliau'r haf**
**ystafelloedd i gynnal cyfarfodydd / partïon pen-blwydd / disgo**
**bwydydd iachus yn y caffi**

**1(ii) Mae gennych swydd ran-amser yng Ngwesty'r Castell ac mae'r rheolwr wedi gofyn i chi newid y llythyr ar dudalen 10 ac 11 o'r person cyntaf unigol (fi) i'r person cyntaf lluosog (ni).**
**Ysgrifennwch y deg newid yn unig.**
**Nid oes angen copïo'r llythyr. [10]**

Gwesty'r Castell
Heol Y Waun
Aberlydan
23 Mai

Annwyl Mrs Lewis

Trefniadau Dathlu Pen-blwydd 21 oed.

Yn dilyn FY sgwrs gyda chi ar y ffôn ddoe mae'n bleser GYDA FI anfon pecyn sy'n cynnwys gwybodaeth am yr hyn RYDW i'n gallu ei gynnig i chi ar achlysur mor hapus.

DEALLAF y byddwch yn ymweld â'r gwesty am ddau o'r gloch ar 10 Awst ac, yn naturiol, bydda i yma ar y diwrnod hwnnw i'ch croesawu.

**Os bydd angen llety arnoch chi neu'ch ffrindiau ar noson y parti RWYF WEDI sicrhau y bydd digon o ystafelloedd ar gael. Hefyd, MAE'N DDA GYDA FI ddweud FY MOD I'N gallu cynnig pob ystafell am bris arbennig gan eich bod yn cynnal y parti yma. Mae'r manylion yn y pecyn. Os bydd rhai yn penderfynu aros, DYLWN i bwysleisio y bydd angen rhestr o'r enwau arna i erbyn 3 Medi 2018 fan bellaf.**

**Diolch yn fawr i chi am eich diddordeb yn y gwesty ac os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch yn y cyfamser anfonwch ebost ATA I: gwesty'rcastell@gmail.com**

**Yn gywir**

**Joe Wilson**

**Rheolwr y gwesty**

## ADRAN B

### Y Stori Fer

2(i) Yn y darn o'r stori fer 'Pwy fyth a fyddai'n fetel?' gan Mihangel Morgan ar dudalen 14–18, mae Non yn wynebu nifer o wahanol emosiynau wrth iddi ddelio â'r newid yn y peiriant KEFLUSKER X. Dychmygwch mai chi ydy Non. Ysgrifennwch tua 100 o eiriau yn disgrifio sut rydych chi'n teimlo ac yn ymateb i'r emosiynau hyn. [15]

Gallech sôn am:

- y teimlad o fod o dan fygythiad
- y ffaith eich bod yn cael eich rheoli gan y peiriant
- y teimlad o rwystredigaeth
- y tymer ddrwg rydych chi ynddi ar y diwedd
- y sioc o gael eich bradychu gan Jac.

**2(ii)** **Yn y darn ar dudalen 14–18 mae'r awdur yn defnyddio technegau amlwg fel:**
**ATALNODI**
**AILADRODD**
**AMRYWIAETH YN HYD Y LLINELLAU.**
**Rhowch enghreifftiau o'r technegau hyn gan ddweud a ydych yn teimlo eu bod yn effeithiol ac yn ychwanegu at lwyddiant y stori a pham.**
**(Tua 100 o eiriau) [15]**

**(iii)** **Un o themâu'r darn ar dudalen 14–18 yw PERTHYNAS. Manylwch ar y thema PERTHYNAS RHWNG POBL A'I GILYDD trwy gyfeirio at unrhyw lenyddiaeth a ddarllenwyd neu lunyddiaeth a wyliwyd gennych sy'n ymdrin â'r un thema A'U CYSYLLTU GYDA'R DARN AR DUDALEN 14–18. Tua 300 o eiriau (Cwestiwn synoptig) [40]**

Roedd y peiriant yn dawel unwaith eto. Cafodd Non y teimlad fod KEFLUSKER X yn edrych arni, yn syllu arni. Doedd hi ddim wedi gwisgo’n iawn, roedd hi’n dal i wisgo’i choban nos denau. Teimlai’n noeth.

Clywodd Non glic arall y tu mewn i’r peiriant.

- Symud! meddai KEFLUSKER X.
- Beth?
- Symud.
- Nawr ‘te, KEFLUSKER X, dydw i ddim yn…
- Symud!
- I ble?
- I’r – gwely.
- Gwranda…

Aeth Non yn ôl i’r gwely ac eistedd arno’n betrus iawn. Daeth y peiriant hyd at erchwyn y gwely a sefyll yno. Clywodd Non y clic eto.

- Dyma – fi – yn – awr – yn – ceisio – datod – fy – mhecyn – gofidiau – i – ti – yn – cofio – am – yr – holl – gamweddau – a – ddioddefais – yn – ddirwgnach – tra – oedd – cenfigen – a – dicter – yn – rhydu – o’m – mewn.

Tawodd KEFLUSKER X. A oedd modd dal pen rheswm â pheiriant? meddyliodd Non.

- **Mae'n – bryd – i – ti – wrando, meddai KEFLUSKER X. Bûm – yn – dy – wylio – di – Mi – wn – i – bopeth – amdanat – ti – Gwn – dy – gyfrinachau – i – gyd – Gwn – am – d'odineb – d'anffyddlondeb – A – gwn – am – yr – un – diweddaraf – Andy – Mae – e'n – iau – na – thi – on'd – yw – e? – Ac – rwyt – ti'n – gobeithio – ei – briodi – on'd – wyt – ti? – Rwyt – ti'n – ei – garu – Ac – rwyt – ti'n – meddwl – ei – fod – e'n – dy – garu – dithau – on'd – wyt – ti? – Wel – dyw – e – ddim – Mae – ganddo – fe – gariad – ifancach – o – lawer – a – phertach – na – thi – yn – eistedd – ar – ei – liniau - yn – ei – swyddfa – y – funud – hon – mwy – na – thebyg – Byddi – di'n – fenyw – gyfoethog – cyn – bo – hir – ar – ôl – dy – ddyrchafiad – yn – y –cwmni – A – dyna – i – gyd – roedd – e'n –**

ei – weld – ynot – ti.

- Cau dy geg!
- Buost – ti – mor – greulon – Ond – fy nhro – i – yw – hi – nawr.

Tawodd y peiriant am eiliad. Roedd y distawrwydd fel distawrwydd y bedd, ac yna gyda chlic, dechreuodd KEFLUSKER X eto.

- Ie – fy – nhro – i – Rwy'n – mynd – heddiw – Rwy'n – mynd – i – d'adael – di – Gwyddwn – dy – fod – ti – a – d'anwylyd – yn – bwriadu – fy – lladd – ond – chewch – chi – mo'r – pleser – na'r – arian – chwaith – Rwy'n – symud – i – Baris – heddiw – a – dydw – i – ddim – yn – mynd – ar – fy – mhen – fy – hun – Ond – chei – di – byth – wybod – pwy – sy'n – dod – gyda – fi.
- Jac? Jac! Ti sydd yn gwneud hyn i gyd?

- Gobeithio – wnest – ti – fwynhau'r – rhaglen!
  Ar hynny, ffrwydrodd
  KEFLUSKER X.

**DIWEDD Y PAPUR**